# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**
**Remote Attendance**
**Dydd Iau, 21ain Hydref, 2021, 10.00 am**

| CYNGHORWYR YN BRESENNOL | SWYDDOGION YN BRESENNOL |
| --- | --- |
| Cynghorydd Sirol P. Jordan (Chairman)<br><br>Cynghorydd Sirol: J.Becker, A.Davies, D. Evans, R.Roden, B. Strong, R. Edwards, R. Harris, S. Jones, Phil Murphy, Maureen Powell, V. Smith | Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio<br>Philip Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu<br>Rachel Lewis, Rheolwr Polisi Cynllunio<br>Hannah Jones, Youth and Community Officer<br>Gareth James, AGI Coordinator |

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Sirol: M.Feakins, G. Howard, Frances Taylor

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion gan y cyhoedd.

3. **Cyflogaeth a Sgiliau – Craffu'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y rhaglenni cyflogaeth, sgiliau a phrentisiaethau.**

   Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hannah Jones, Gareth James, Stephen Cooper a William Austin. Cafodd cwestiynau'r aelodau eu hateb gan Hannah Jones gyda Stephen Cooper a Cath Fallon.

   **Her:**

   *Beth yw'r gwahaniaeth yn nifer y prentisiaid y sonnir amdanynt?*

   Sonnir am 168. Mae hyn yn staff presennol sy'n dymuno uwchsgilio: caiff unrhyw un sy'n dilyn cymhwyster Lefel 2-4 neu NVQ ei ystyried yn brentis hefyd.

   *Cyllid yw'r eliffant yn yr ystafell. Ar gyfer y prosiectau a amlinellir, daw £2.2m o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, gyda £1.1m o hynny ar gyfer cynllun Infuse. Ar gyfer y cynlluniau eraill, lle ydych chi'n disgwyl sicrhau cyllid ar gyfer y diffyg hwnnw?*

   Rydym yn gweithio gydag awdurdodau eraill Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu model cydweithio a gynlluniwyd ar y cyd ar gyfer cyflogaeth a sgiliau y dyfodol – bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd ac effeithiolrwydd cost seiliedig ar werthoedd i ni. Mae gweithdai yr wythnos hon i edrych ar y model. Ond mae cyllid yn bryder – mae goblygiad ariannol mawr i'r awdurdod ac rydym eisiau lleihau hynny. Rydym yn edrych ar ddatrysiadau lleol a rhanbarthol, a byddwn yn paratoi cynigion mwy manwl ar gyfer y Cabinet. Nid ydym wedi clywed am y gronfa adnewyddu cymunedol, sy'n anffodus.

*Mae cyfrif y cynlluniau gyda'i gilydd yn rhoi tua £1m. A ddaw hynny gan Lywodraeth Cymru? Faint fydd Cyngor Sir Fynwy yn ei gyfrannu?*

Derbyniwn tua £327k o gyllid grant bob blwyddyn ar gyfer Ysbrydolii i Gyflawni, Ysbrydoli i Weithio a phrosiectau Sgiliau Gwaith. Cyllidwn y £187k arall o gostau cyflenwi o'n cyllideb graidd, gan fynd â'r rhan fwyaf o'n cyfanswm o £199k o gyllid craidd.

*Os na ddaw unrhyw arian o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, fyddwch chi'n edrych am gynnydd sylweddol gan Gyngor Sir Fynwy i gadw'r cynlluniau hyn i fynd?*

Rydym yn edrych ar raglenni olynol ond yn anffodus yn dal i aros manylion gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

*Mae Eitem 3.2 'Camau Nesaf' yn sôn fod Torfaen yn arwain ar bapur cyflogadwyedd ar gyfer 10 awdurdod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Sut y gall ein llais ni gael ei glywed, fel cyngor gwledig a rywfaint yn bellennig, o gymharu gyda'r lleill?*

Casnewydd yw ein hawdurdod arweiniol ar y cynlluniau presennol. Cafodd ein lleisiau eu clywed wrth ddatblygu'r model ar gyfer Sir Fynwy. Buom yn cwrdd am 18 mis fel 10 awdurdod, yn datblygu'r model ac yn edrych ar wybodaeth leol. Wrth symud ymlaen, credwn ein bod mewn sefyllfa gryfach i ostwng risg. Mae contractwyr mwy yn dod i'r awdurdod lleol, yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig ac ar draws Cymru – rydym eisiau bod yn y lle hwnnw. Mae gennym ddull 10-awdurdod at gyflogadwyedd a sgiliau, gyda'r cynllun cyflenwi lleol tu ôl iddo, sydd yn hyblyg ac sy'n medru addasu i anghenion ein sir.

*Yng nghyswllt Cyfnod Allweddol 2 Ysbrydoli i Gyflawni a phlant a gefnogir, a fedrwch esbonio'r nifer isel yng Nghas-gwent?*

Mae gennym system data lle cofnodwn bresenoldeb, ymddygiad a llesiant ar Gyfnod Allweddol 2. Mae un o'r meini prawf yn dynodi pobl ifanc sydd angen y mwyaf o gefnogaeth, yna bydd y gweithiwr yn cael trafodaeth broffesiynol gyda'r ysgol gynradd. Rhoddwyd ystyriaeth i bopeth i gefnogi pobl ifanc Cas-gwent sy'n pontio o cynradd i uwchradd, ond gallwn wirio'r ffigurau eto.

*A fedrwn gael mwy o wybodaeth ar waith prinder HGV?*

Fe wnaethom gwrdd gyda Torfaen mewn ffair swyddi ddoe – fe wnaethant gyllido ychydig o'u cleientiaid drwy'r broses. Ond mae'n ddrud iawn e.e. tua £1700 fesul cleient ar gyfer prawf, arholiad cysylltiedig â chymhwysedd ac i dalu am y drwydded. Rydym yn edrych gyda ELO o wahanol gynghorau o'n hamgylch, i weld os gallwn fynd at Lywodraeth Cymru i geisio mwy o gyllid. Yna, os daw cleientiaid ymlaen sydd eisoes gyda Melin neu MHA, efallai y gallwn ledaenu'r gost. Rydym ar y cam cynllunio; rydym wedi dynodi'r angen. Gobeithio y bydd ein cynllun yn llwyddiannus.

*Mae'r mater cyllid yn hanfodol wrth ehangu'r gwasanaethau hyn. Mae rôl briodol i Lywodraeth Cymru wrth sicrhau fod y cynlluniau hyn yn parhau.*

Yng nghyswllt cyllid olynydd, mae'r tîm yn gweithio'n rhanbarthol - a'r Prif Swyddog ar lefel genedlaethol – i ddynodi ffrydiau cyllid eraill unwaith y daw cyllid Ewropeaidd i ben. Mae hyn yn broblem ar draws y Deyrnas Unedig. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar y cynnydd. Er fod Infuse yn rhan o'r portffolio, nid oes unrhyw arian cyfatebol uniongyrchol gan yr awdurdod yn mynd iddo. Rydym yn cefnogi'r rhaglen drwy 'arian cyfatebol mewn da' h.y. amser swyddog i'w gefnogi. Felly, er ei fod yn ffurfio rhan fawr o'r rhaglen honno mae rywfaint tu allan i gyflenwi yr hyn a wnaiff ein timau cyflogaeth a sgiliau.

*Mae 3.2.2 yn trafod papur ar gyflogadwyedd. A oes syniad pryd y bydd y fersiwn terfynol yn mynd i'r Cabinet?*

Rydym yn edrych ar ddyddiad ym mis Rhagfyr i fynd i'r Cabinet, felly yn paratoi'r papur yn awr. Cafodd ei gytuno gan ffwrdd strategol y Brifddinas-Ranbarth. Ewn ag ef i'r tîm rheoli adrannol, uwch dîm arweinyddiaeth yna'r Cabinet.

*Yng nghyswllt model Evolutive yn 6.3, mae angen i ni gyfateb sgiliau gyda'r hyn mae busnesau ei angen mewn gwirionedd. A fedrwn gael diweddariad ar yr hyn sy'n digwydd ac ar gyflwyno'r system?*

Fe wnaethom gwrdd gydag awdurdodau lleol cyfagos i edrych ar y system a deall sut mae'n gweithio. Fe wnaethom wedyn gwrdd gyda SRS i edrych ar gynllun gwahanol, i weld os oes system well. Rydym wedi paratoi papur i fynd i'r Tîm Rheoli Adrannol Menter, ar ôl i SRS gytuno arno. Yna byddwn yn mynd yn ôl at gwmni Evolutive i ddechrau ei sefydlu, gobeithio cyn y Nadolig, iddo wedyn fynd yn fyw yn Ionawr-Mawrth. Mae gennym gysylltiad wyneb i wyneb ac e-bost gyda'n busnesau, ond bydd hyn yn rhoi yr wybodaeth sgiliau i edrych ar dueddiadau a'r tirlun mwy ar gyfer Sir Fynwy. Yr adborth gan awdurdodau eraill yw y bu yn arf gwerthfawr iddynt. Hoffem ddiweddaru'r pwyllgor ar ei gynnydd tua mis Ebrill.

*Mae'r cynlluniau hyn mor ddefnyddiol ar gyfer pobl ifanc i gael profiad o wahanol amgylchedd a gwaith.*

Rydym wedi cyflwyno cynnig ar gyfer lleoliad Kickstart i gefnogi Evolutive fel rhan o dîm hefyd – dylai fod llawer o bobl ifanc gyda phrofiad gwerthfawr mewn technoleg gwybodaeth fydd yn neidio at y cyfle.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae hwn yn brosiect rhagorol, ond mae angen mwy o arian i sicrhau ei fod yn parhau tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn amlwg, ni all hynny ddod gan Gyngor Sir Fynwy yn unig ond bydd angen mewnbwn sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

4. **<u>Craffu'r adroddiad monitro blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</u>**

Cyflwynodd Rachel Lewis a Craig O'Connor yr adroddiad. Atebodd Craig O'Connor gwestiynau'r aelodau.

**Her:**

*Ydyn ni ddim, i raddau helaeth, yn dibynnu ar ddatblygwyr os caiff y targedau hyn eu cyrraedd ai peidio? Onid yw hyn yn wledd symudol, gan fod y ffigurau yn newid o wythnos i wythnos?*

Fel cyngor, nid yw popeth yn ein dwylo ni o fewn y diwydiant adeiladu. Yr hyn y gallwn wneud yw cael Cynllun Datblygu Lleol rhagweithiol sy'n dyrannu digon o dir a bod digon o gyfle i ddatblygwyr ddod ymlaen – yn breswyl ac yn economaidd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol presennol wedi dangos fod gan caniatâd cynllunio gan 6 o'r 7 safle strategol felly rydym wedi creu'r cyfle hwnnw fel cyngor. Ac mae cais cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer y seithfed, Vinegar Hill. Dros y cyfnod cynllunio hwn rydym wedi cyhoeddi 4,378 caniatâd cynllunio, yn erbyn targed o 4,500 – felly rydym yn gwneud yn wirioneddol dda.

*Mae ansawdd yr Afon Gwy a ffosffadau yn bryder mawr. Mae'n broblem enfawr i'w datrys – a yw hynny'n wirioneddol bosibl yn amserlen y Cynllun Datblygu Lleol nesaf?*

Ydi, mae problem ffosffadau yn un sylweddol. Mae'n broblem genedlaethol. Rydym yn eistedd ar fwrdd Cymru gyfan gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru i geisio canfod ffyrdd y gall datblygiadau fynd rhagddynt tra caiff ansawdd dŵr ei wella. Mae angen

rhaglen gyllido fanwl ar gyfer y system ddraeniad i alluogi dileu ffosffadau yn ein aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Ond mae hefyd angen i ni edrych ar ddatrysiadau naturiol gyda buddion lluosog. Mae'n her enfawr, ond rydym yn gweithio'n galed iawn arni. Mae angen gwella seilwaith draeniad yn y Fenni a Nhrefynwy, yn neilltuol.

*Ydych chi'n gweithio gyda'r awdurdodau yn Lloegr hefyd yng nghyswllt yr Afon Gwy?*

Ydyn, rydyn ni hefyd yn aelodau ar fwrdd yn ymwneud â'r Afon Gwy, gyda thrafodaethau traws-ffin.

*Pa mor realistig yw'r tafluniad datblygiad tai ar dudalen 41 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yng nghyswllt y broblem ffosffadau?*

Caiff ei tafluniad ei gefnogi gan ganiatâd cynllunio presennol hefyd, gan fod gan rai o'r safleoedd hynny ganiatâd cynllunio yn barod. Caiff y broblem ffosffadau ei gosod ar bwynt mewn amser o ddechrau'r flwyddyn. Felly, os oes gan ddatblygiad ganiatâd cynllunio cyn hynny, gall barhau – mae'r broblem ffosffadau yn effeithio ar ddatblygiadau na chafodd ganiatâd eto. Rydym yn hyderus y gall y tafluniad barhau, yn seiliedig ar geisiadau a ganiatawyd eisoes, a'r rhai sydd tu allan i'r ardal dan sylw, tebyg i Vinegar Hill.

*A yw ffosffadau yn broblem i ogledd y sir neu'n broblem i ogledd yr M4?*

Mae ffosffadau yn effeithio ar ddalgylchoedd afonydd, felly nid yw'n effeithio ar Sir Fynwy i gyd ac nid yw'n dilyn llwybr yr M4. Mae map dan adran Ansawdd Dŵr y wefan sy'n dangos yr ardaloedd. Nid yw Glannau Hafren a Chas-gwent, er enghraifft, yn yr ardal ffosffadau honno.

*A wyddom pa ganran sydd gan y bwrdd dŵr o gyfleusterau dileu ffosffadau?*

Galluedd dileu cyfyngedig iawn sydd gennym yn y sir. Yn Rhaglan mae'r unig ddraeniad sy'n gwneud hynny. Rydym mewn trafodaethau gyda Dŵr Cymru am wella'r seilwaith yn y Fenni a Threfynwy i alluogi twf.

*Yng nghyswllt y tafluniad tai, mae diffyg o 1500 tŷ o'r targed dechreuol, cyfwerth â 300 tŷ bob blwyddyn dros y cyfnod o ddeg mlynedd. Y targed ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yw 507 y flwyddyn, neu uwch. Pa mor realistig yw hyn, yng ngoleuni'r heriau a wynebwn?*

Oes, mae diffyg o 1,500 annedd ond fel y soniwyd, dyrannwyd 6 o'r 7 safle ac maent yn dod ymlaen. Dros y 5 mlynedd nesaf, o ystyried yr hyn sy'n dod ar gael, rydym yn hyderus y bydd y tafluniad yn parhau. Gwelwn pan gaiff tir ddyrannu y medrwn gyflenwi'r cartrefi.

*Mae gan y datblygiad 11 uned yn Drenewydd Gellifarch ganiatâd cynllunio amlinellol ond nid caniatâd cynllunio manwl. Gydag Adroddiad Monitro Blynyddol, a gaiff hynny ei ystyried, gan y gallai fod tipyn o amser cyn y bydd yn datblygu?*

Rydym yn mesur o'r amser y rhoddir caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer cais – dyna pryd y caiff egwyddor datblygu ei sefydlu.

*Sut mae amlygrwydd ffermio dofednod ym Mhowys yn rhan o ddatrysiadau i'r broblem ffosffadau?*

Mae'n broblem aml-ddisgyblaeth, yn cynnwys datblygiadau ac arferion amaethyddol, a dyna pam ein bod yn cydweithio ar sail Cymru-gyfan. Bydd lliniaru dŵr ffo yn ffactor, ond y cyfan y gallwn ei wneud ar y cam hwn yw dal ati i weithio i ganfod datrysiadau.

*Mae hefyd bryder am garthffosiaeth amrwd yn cael ei wagu i afonydd yn hytrach na mynd drwy'r system carthffosiaeth. A all hyn gael ei gyfarch?*

Ni allwn roi sylwadau ar hynny'n benodol ond byddai'n dod dan ymbarél canfod datrysiadau, gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

*Pam nad yw safle Heol Crug yn mynd rhagddi? A oes problem gyda seilwaith carthffosiaeth dŵr yn y safle?*

Mae Heol Crug yn symud ymlaen, mae wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer cartref gofal ar gyfer datblygiad preswyl. Bu peth o'r oedi oherwydd contractau. Mae nifer o amodau yr ydym yn dal i weithio drwyddynt ond dylai datblygiad ar y safle ddechrau yn fuan. Nid oes unrhyw broblem gyda draeniad na charthffosiaeth yn y safle.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r pwyllgor yn argymell cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru. Eglurodd Phil Murphy, Aelod Cabinet, y bydd cartref gofal Heol Crug yn dechrau erbyn dwy wythnos gyntaf mis Rhagfyr.

5. **Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol – Craffu'r adroddiad perfformiad blynyddol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

Cyflwynodd Philip Thomas yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Craig O'Connor.

**Her:**

*Mae paragraff 6.1 ar dudalen 5 yn sôn am 8 wythnos (56 diwrnod) i benderfynu cais, ond mae paragraff 6.7 yn dweud bod yr amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau wedi cynyddu i 92 diwrnod. Pam y gwahaniaeth?*

Yr amser pen-i-ben ar gyfer pob cais yw 92 diwrnod. Unwaith y mae cais yn cyrraedd 8 wythnos, byddwn yn cytuno ar estyniad gyda'r datblygydd.

*Yng nghyswllt gorfodaeth, mae 297 cwyn ond dim ond 14 cam gweithredu. A oes rhywbeth arall yn digwydd? A oes posibilrwydd addysgu'r achwynwyr? Faint o waith mae'n ei olygu?*

Mae llawer o waith ond mae faint yn amrywio o gŵyn i gŵyn, a hefyd y raddfa. Caiff y cyfan eu hymchwilio. Caiff rhai eu cau yn gyflym tra gall eraill gymryd misoedd lawer, yn aml oherwydd nad oedd rhywun wedi sylwi fod angen caniatâd i'w gweithredu. Rydym wedi cynnal hyfforddiant yn flaenorol gyda chynghorau cymuned fel eu bod yn deall terfynau'r hyn y gallwn ei wneud, a phan y mae'n briodol i gwyno. Bydd angen diweddaru hyfforddiant ar gyfer y garfan newydd o gynghorwyr yn dilyn yr etholiadau y flwyddyn nesaf.

*Yng nghyswllt camau gweithredu ar gyfer 2021-22, mae gennym ddau adeilad mewn risg ym Mrynbuga sef porthdy y Priordy a'r hen floc stablau, a hen adeilad y cyngor wrth ymyl y King's Head. A all y rhain, yn arbennig y porthdy, gael eu cyfarch fel mater o frys?*

Gallant, byddwn yn cadw llygad agos arnynt.

*Beth yw'r amserlen ar gyfer y prosiect coeden ddigidol?*

Rydym yn edrych ar hyn o bryd ar sut i symud ymlaen gyda'r darn hwn o waith. Mae angen digideiddio llawer o wybodaeth a'i rhoi ar y system. Gobeithiwn ddechrau yn y flwyddyn newydd ond mae pa mor hir y bydd yn ei gymryd yn dal i gael ei drafod.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r pwyllgor yn argymhell bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

6. **Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.**

Nodi'r cyfarfod arbennig ar 8 Tachwedd ar bwnc y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

7. **Blaengynllun Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**

**8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**9. Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu, dyddiedig 7fed Medi 2021.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

**10. Cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu, dyddiedig 16eg Medi 2021.**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

**11. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**